

# Cyngor Cymuned Ysgubor y Coed Ysgubor y Coed Community Council

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Medi 2016

**2016/28. Presennol:** Cyngorwyr Toland (yn y gadair), Goodman, Hustings, Jenkins, Swanson a Thomas; Cyngorydd Sir ap Gwynn. Bu'r clerc yn gweinyddu. Hefyd yn bresennol: Mr John Griffiths.

**29. Ymddiheuriadau:** Cyngorydd Griffiths

**30. Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol:** Derbyniwyd ac arwyddwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2016 ac 22 Awst 2016.

**31. Datganiadau o ddiddordeb:**

Dim

**32. Materion yn codi:**

- i. Penderfynwyd ateb i'r llythyr gan y Llywodraeth am y palmant. Nodwyd ei bod yn bosib siarad yn uniongyrchol ag Asiantaeth y Cefnffyrdd eto o dan drefn y Gweinidog newydd. Teimlodd y Cyngor fod angen torri'r glaswellt ar ymyl y ffordd a hefyd gosod arwyddion terfyn cyflymder sy'n fflachio er mwyn annog gyrwyr i beidio â goryrru. Penderfynwyd gofyn i'r Clerc ysgrifennu i'r Asiantaeth Cefnffyrdd.  
**Pwynt gweithredu:** Clerc i ysgrifennu at y Gweinidog a'r Asiantaeth Cefnffyrdd.
- ii. Nid oedd newyddion gan yr Asiant Tir parthed y lle chwarae.
- iii. Penderfynwyd cysylltu â Mark Williams AS eto am fynediad i'r orsaf.  
**Pwynt gweithredu:** Clerc i ysgrifennu at Mark Williams AS.
- iv. Adroddwyd bod pobl yn gadael sbwriel y tu ôl i'r biniau ailgylchu ym maes parcio Ffwrnais Dyfi ac mae'r bin ailgylchu angen ei wagio yn fwy rheolaidd. Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn cylchredeg y rhif ffôn perthnasol er mwyn i'r cyngorwyr ofyn i'r Cyngor Sir wagio'r bin pan fydd yn llawn yn fwy aml. Trafodwyd problem gyda thipio anghyfreithlon yn y maes parcio a phenderfynwyd ysgrifennu i Cadw gan awgrymu gosod arwyddion 'Dim tipio' a 'Ewch â'ch Sbwriel Adref', ac, o bosib, camerâu i ddelio â'r broblem hon. Trafodwyd hefyd sefyllfa'r Ffwrnais ei hun. Nodwyd nad oedd gwybodaeth ynglŷn â chynlluniau Cadw ar gyfer yr adeilad wedi'r prosiect i osod peirianwaith cynhyrchu trydan ynddo ddod i ben heb i'r peirianwaith gael ei ddefnyddio a bod cyflwr yr adeilad yn dirywio. Teimlad y Cyngor oedd bod y prosiect hwn wedi bod yn wastraff arian. Penderfynwyd ysgrifennu at y gweinidog perthnasol i holi beth ddigwyddodd a beth yw'r cynlluniau ar gyfer dyfodol yr heneb unigryw a phwysig hon.  
**Pwynt gweithredu:** Clerc i gylchredeg y rhif ffôn ar gyfer gwagio'r bin gwydr. Clerc i ysgrifennu i Cadw. Clerc i ysgrifennu i'r gweinidog.
- v. Nid oedd Cyngorydd Goodman wedi cael ateb gan yr heddlu parthed cynllun 'Cadw Llygad ar Gyflymder yn y Gymuned'.
- vi. Nodwyd bod cynlluniau gan y Cyngor Sir i gasglu gwydr i'w ailgylchu ar ochr y ffordd. Bydd hyn yn golygu y bydd y Cyngor Sir yn symud y bin ailgylchu gwydr sydd yn y maes parcio ar hyn o bryd.
- vii. Nodwyd ymateb awdur sylwadau ar dudalen Facebook y Cyngor yr oedd y Cyngor wedi derbyn cwyn amdanynt i neges gan y Clerc a'r ffaith ei bod bellach wedi gadael y dudalen. Ystyriwyd bod y mater bellach ar ben, ond gofynnwyd i'r

Clerc ychwanegu nodyn i'r dudalen gan nodi y dylid cysylltu â'r Cyngor gan ddefnyddio e-bost swyddogol y Cyngor, nid y dudalen Facebook.

**Pwynt gweithredu:** Clerc i ychwanegu nodyn i'r dudalen Facebook am gysylltu â'r Cyngor.

viii. Nodwyd gwybodaeth gan y Swyddog Cynllunio parthed cais cynllunio A160708, sef ni ddefnyddir y datblygiad yn fasnachol.

**33. Cyllid:**

i. Penderfynwyd peidio ag ystyried ceisiadau am gymorth ariannol gan Gyfeillion Theatr Felinfach a Theatr Gydweithredol Troedyrhiw yn y cyfarfod ym mis Ionawr 2017.

ii. Nodwyd bod y taliad canlynol wedi'u gwneud: £150.00 (Francis Gray).

**34. Gohebiaeth a Chyfathrebu:**

i. Derbyniwyd a nodwyd y dogfennau canlynol gan Un Llais Cymru:

a. Cymru'n Cofio

b. Ymgynghoriad y Pwyllgor Llifogydd ac Erydiad Arfordirol

c. Swyddfa Archwilio Cymru: Ymgynghoriad ar gyfraddau ffioedd a graddfeydd ffioedd 2017-18

ch. Cyngor i Gynghorau Cymuned a Thref ar Weithio gyda Phobl Ifanc

d. Y Gyfraith Gynllunio yng Nghymru - Crynodeb o Bapur Cwmpasu Comisiwn y Gyfraith

dd. Ymgynghoriad ar NCT24 drafft: Yr Amgylchedd Hanesyddol

e. Cyfarfod cyffredinol blynyddol

ii. Derbyniwyd y ddogfen ganlynol gan Gyngor Sir Ceredigion:

a) Theatr Felinfach: nodwyd

iii. Derbyniwyd a nodwyd y dogfennau canlynol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda:

a. Y Sgwrs Fawr

b. Grwpiau ffocws

iv. Nodwyd Ymgynghoriad ynghylch y Cynllun Heddlu a Throsedd gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed Powys

v. Nodwyd cyfarfod cyffredinol blynyddol a chyfarfod cyffredinol anghyffredin SLCC.

vi. Nodwyd *Clerk and Councils Direct* (Medi 2016).

vii. Nodwyd *The Clerk* (Medi 2016)

**35. Unrhyw Fater Arall:**

i) Adroddwyd bod Sefydliad y Merched yn cynnal dydd newid hinsawdd ar 14 Hydref gyda thaith gerdded ar Foel Fawr. Bydd Mark Williams AS yn bresennol.

ii) Nodwyd gwybodaeth am y cynlluniau i newid y ffiniau etholiadol yng Nghymru. Barn y Cyngor oedd y dylai Ceredigion fod gyda Machynlleth, nid Llanidloes, am resymau diwylliannol, ieithyddol a daearyddol.

iii) Nodwyd bod angen glanhau'r gysgodfa bws yn Ffwrnais.

iv) Nodwyd bod angen hysbysfwrdd newydd y tu allan i Fanc y Llan gan fod yr hen un wedi pydru. Bydd hyn yn costio £120. Nodwyd bod angen hysbysfwrdd newydd gyferbyn â'r eglwys hefyd gan fod yr un cyfredol wedi pydru. Awgrymwyd gosod yr hysbysfwrdd oedd yn arfer bod yn y maes parcio yma. Mae'r hysbysfwrdd hwn yn cael ei storio yn y ffwrnais ar hyn o bryd.

v) Derbyniwyd cwyn am barti swnllyd a gynhaliwyd yn ddiweddar gan rai o drigolion Plas Einion. Cytunwyd i ysgrifennu Adran Iechyd Amgylcheddol y Cyngor Sir am

gyngor. Hefyd, cytunwyd y byddai'r Clerc yn ysgrifennu at y teulu a oedd wedi cynnal y parti yn codi pryderon, gofyn am rybudd ar gyfer partiön yn y dyfodol a gofyn iddynt sicrhau na fyddai sŵn uchel ar ôl canol nos, gan fod nifer o bobl yn y gymuned wedi effeithio'n negyddol gan y sŵn a oedd wedi mynd ymlaen tan oriau mân y bore.

vi) Awgrymwyd gosod nodyn yn y cylchlythyr cymunedol yn nodi y byddai'n bosib i'r Cyngor ystyried ariannu teithiau i bensynwyr yn y gymuned petai rhywun am eu trefnu.

#### **34. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 9 Tachwedd 2016**